Safonau Masnach Cymru
Trading Standards Wales

# DATGANIAD SEFYLLFA

Safonau Masnach…….

## Cyfrannu at yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Ar ôl datgan argyfwng hinsawdd yn 2019, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i darged o Sero Net erbyn 2050. Mae gwasanaethau Safonau Masnach ledled Cymru mewn sefyllfa dda i gyfrannu at yr agenda pwysig hwn drwy eu dyletswyddau i orfodi ystod eang o ddeddfwriaeth sy'n diogelu defnyddwyr Cymru a busnesau gonest.**

**NODAU, AMCANION AC YSGOGWYR Y LLYWODRAETH**

**Effeithlonrwydd Ynni:**

Yng Nghymru, mae ein 1.4 miliwn o gartrefi yn gyfrifol am 27% o'r holl ynni a ddefnyddir. Tasg awdurdodau Safonau Masnach yw gorfodi Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015, sy'n ceisio gwella safon eiddo domestig a masnachol yn y sector rhentu preifat trwy greu safon ofynnol o ran effeithlonrwydd ynni.

Nod y Rheoliadau hyn a'r gofynion presennol sy'n cyd-fynd â nhw yw gwneud perfformiad ynni adeiladau'n fwy tryloyw i ddarpar brynwyr a thenantiaid. Mae Safonau Masnach yn gorfodi deddfwriaeth sy'n gorfodi gwerthwyr tai a gosod i gynnwys sgôr ynni eiddo yn ei wybodaeth farchnata, gan ei alluogi i ffurfio rhan o broses gwneud penderfyniadau'r defnyddiwr. Yn ogystal, mae'n rhaid i adeiladau cyhoeddus mawr ddangos eu perfformiad ynni ar gyfer defnyddwyr. Mae cydweithio agosach gyda chydweithwyr Iechyd yr Amgylchedd a Thai, yn ogystal ag Adrannau Rheoli Adeiladau yn sbardun i orfodi'n llwyddiannus ac i godi safonau.

**Golchi Gwyrdd:**

Mae ymddygiad defnyddwyr yn gysylltiedig ers tro â gyrru newid, ond mae'n hanfodol y gall pobl fod yn hyderus yn yr honiadau sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchion neu'r gwasanaethau y maent yn eu prynu. Mae ein deddfwriaeth yn canolbwyntio ar degwch a thryloywder wrth i ddefnyddiwr wneud penderfyniad i brynu. Mae'r Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau ddarparu gwybodaeth glir, gywir a digonol, fel y gall defnyddwyr wneud dewisiadau prynu gwybodus. Gall honiadau neu ddatganiadau amgylcheddol gynnwys, ond heb eu cyfyngu i'r canlynol:

Statws organig; ailgylchu'r cynnyrch neu ei becynnu, gwrthbwyso carbon, rhinweddau amgylcheddol y gwneuthurwr ac unrhyw gymeradwyaethau amgylcheddol ar gyfer y cynnyrch neu'r cwmni. Fel unrhyw ddatganiad masnachol, dylent allu cael eu profi a gall Safonau Masnach ymchwilio i gywirdeb a dilysrwydd honiadau o'r fath.

**Gwastraff plastig:**

Mae Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018 yn gwahardd defnyddio microbelenni plastig mewn cynhyrchion gofal personol i gydnabod y niwed y maent yn ei achosi i fywyd morwrol.

Cyflwyno Rheoliadau Bagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 oedd y cyntaf o ranbarthau'r Deyrnas Unedig i ddeddfu ar fagiau untro drwy osod isafswm tâl o bum ceiniog. Mae gofynion cadw cofnodion ychwanegol a gofynion cyhoeddi yn cael eu rhoi ar gwmnïau mwy.

Mae twf Siopau Ail-lenwi a Dim Gwastraff yn adlewyrchu'r symudiad i ffwrdd o eitemau wedi'u pecynnu ymlaen llaw a'r gwastraff plastig cysylltiedig. Mae'r siopau hyn yn derbyn cefnogaeth er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ofynion deddfwriaethol; o sicrhau bod gwybodaeth ddiogelwch allweddol ar gael, i ddefnyddio offer mesur priodol sy'n gwarantu bod y defnyddiwr amgylcheddol ei feddwl yn cael bargen deg.

**Amrywiol:**

Ynghyd â'i rolau wrth godi safonau ym maes tai a sicrhau bod defnyddwyr yn gallu bod yn hyderus yn eu dewisiadau, mae Safonau Masnach yn gorfodi amryw o ddeddfwriaeth arall sy'n cael effaith ar yr agenda amgylcheddol, er enghraifft:

Mae Rheoliadau Pecynnu (Gofynion Hanfodol) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol mai cyfaint a phwysau'r pecynnu yw'r isafswm i gynnal lefelau angenrheidiol o ddiogelwch, hylendid, a derbyn ar gyfer y cynnyrch llawn ac i'r defnyddiwr. Rhaid cynhyrchu pecynnu i ganiatáu ail-ddefnyddio neu adfer yn unol â gofynion penodol ac mae cyfyngiadau ar rai deunyddiau a sylweddau a ganiateir mewn pecynnu o ran eu hallyriadau, lludw neu drwytholch wrth gael eu llosgi neu eu rhoi mewn safleoedd tirlenwi.

Mae Rheoliadau Car Teithwyr (Defnydd Tanwydd a Gwybodaeth Allyriadau CO2) 2001 yn gorfodi gwerthwyr ceir i arddangos labeli economi tanwydd yn glir ar gyfer ceir mewn ystafelloedd arddangos gwerthu. Mae'n sicrhau bod gan ddefnyddwyr wybodaeth allweddol am allyriadau C02 a'r defnydd o danwydd fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus. Mae gwelliannau diweddar yn golygu bod hyn hefyd yn berthnasol i gerbydau trydan, cerbydau hybrid trydan a cherbydau deu-danwydd.

O dan Reoliadau Gwybodaeth Ynni 2011 rhaid gwerthu offer domestig a lampau penodol gyda datganiad ar eu perfformiad ynni, gan alluogi cwsmeriaid i ystyried hyn fel rhan o'u proses brynu.

**CYFRANIAD AT YR AGENDA**

**Nod Safonau Masnach Cymru (SMC) yw darparu cyngor, arweiniad a chymorth i bob Gwasanaeth Safonau Masnach yng Nghymru ar y ffordd i gyfrannu orau at faterion Amgylcheddol a Newid Yn yr Hinsawdd awdurdodau lleol a chyfrannu ymhellach at amcanion Sero Net cyffredinol Llywodraeth Cymru.**

Bydd Gwasanaethau Safonau Masnach yn dilyn y canllawiau arfer gorau, ac yn ymdrechu i:

- Nodi arweiniad amgylcheddol o fewn eu gwasanaeth.
- Cysylltu â phartneriaid allweddol yn Iechyd yr Amgylchedd, Tai, Rheoli Adeiladau, Rhentu Doeth Cymru a'r trydydd sector a'r sector preifat.
- Sefydlu cytundebau rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid allweddol lle bo angen.

- Hyrwyddo dull cydweithredol o wneud gwaith effeithlonrwydd ynni, ac ymchwilio i geisiadau golchi gwyrdd. Nodi pecynnau hyfforddi priodol i'r holl staff gweithredol o fewn y gwasanaeth
- Codi proffil Safonau Masnach gydag Aelodau Etholedig ac Uwch Reolwyr, felly maent yn ymwybodol o agenda carbon Sero Net a gwaith y gwasanaeth.
- Adolygu arferion a gweithdrefnau a dysgu gan gydweithwyr yng Nghymru er mwyn sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu datblygu ymhellach.

**CASGLIADAU AC ARGYMHELLION**

**Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r cyllid sy'n caniatáu i awdurdodau lleol gefnogi'r Gwasanaethau Safonau Masnach; Mae Llywodraeth Cymru wedi creu cyfrifoldeb statudol mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni adeiladau yn y sector rhentu preifat, yn ogystal â chyfrifoldeb statudol am honiadau camarweiniol.**

Mae Materion Amgylcheddol a Newid Hinsawdd yn parhau i fod o bwys cynyddol i bobl Cymru a'u Llywodraeth.  Bydd Safonau Masnach yn parhau i gyfrannu at yr agenda hwn drwy orfodi deddfwriaeth bwysig i godi safonau tai a dewis gwybodus gan ddefnyddwyr.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://safonaumasnach.llyw.cymru/cym/home/

Gorffennaf 2022